

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Lun, Hydref 24: Y Gymdeithas Undebol yn Nhy Elidir am 7.00 o'r gloch yng nghwmni Mr Huw P Hughes, Bethel.
Dydd Sul, Hydref 30: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Hydref 30: Oedfa am 10.00 o'r gloch yng ngofal Parti Bytholwyrdd, a Chyfarfod Gweddi am 5.00 o'r gloch. Ni fydd Ysgol Sul oherwydd y gwyliau hanner tymor.

REHOBOTH

Dydd Sul, Hydref 30: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Hydref 23: Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg W H Pritchard.

CARMEL

Dydd Llun, Hydref 24: y Te Bach am 2.30 o'r gloch.
Nos Wener, Hydref 28: Dwylo Pysur am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Hydref 30: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Euros Wyn Jones, Llangefni.

CYNLLUN EFE

Dydd Llun, Hydref 31: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro am 10.30 o'r gloch.



Y mis nesaf - Deiniolen

Hydref 23

5.00 p.m. - Y Parchg Cath Williams

Hydref 30

5.00 p.m. - Y Parchg Dafydd Coetmor Williams

Tachwedd 1

3.30 p.m. - Y Gweinidog (Oedfa Gymun)

Y mis nesaf - Llanberis

Hydref 23

10.30 a.m. - Oedfa Deulu - Diolchgarwch + Cinio Cawl (elw at Ward Alaw)

Hydref 30

10.00 a.m. - Parti Bytholwyrdd DIM YSGOL SUL
5.00 p.m. - Cyfarfod Gweddi

Tachwedd 1

10.00 a.m. - Cyfarfod Gweddi
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Canon Idris Thomas



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 702: Dydd Sul, 23 Hydref, 2016

Aberfan

Doeddwn i ddim yn yr ysgol ar yr 21ain o Hydref, 1966. Roedd hi'n wythnos y Diolchgarwch i ni yn Sir Gaernarfon, a'r dydd Gwener hwnnw oedd diwrnod olaf y gwyliau hanner tymor. Mewn rhannau eraill o'r wlad, yr wythnos ganlynol fyddai wythnos y gwyliau, ac roedd y plant yn yr ysgol fel arfer y diwrnod hwnnw. Yn yr ysgol fel y gwyddom yr oedd plant Aberfan y bore dychrynlyd hwnnw y llithrodd y domen lo i lawr y mynydd i'r pentref gan ddirio Ysgol Gynradd Pantglas a thai cyfagos, a lladd 116 o blant a 28 o oedolion.

Mae hynny hanner canrif union yn ôl erbyn hyn, a nodwyd y ffaith honno gan filoedd ar filoedd o bobl ar hyd ac ar led y wlad ddydd Gwener. Cawsom ein hatgoffa trwy erthyglau a rhaglenni radio a theledu am ddirwyddiadau'r bore trasig a barodd i bentref Aberfan ddod yn hysbys i genedlaethau o bobl ymhell y tu hwnt i ffiniau Cymru. Gwelsom luniau'r dinistr a achoswyd gan y gwastraff glo difaol, a chlywsom am y celwyddau a ddywedwyd gan rai a oedd yn arwain Y Bwrdd Glo wrth iddynt wadu pob cyfrifoldeb am yr hyn a ddigwyddodd. Mewn cyfweiliadau o ddydd y trychineb, clywyd unwaith eto leisau rhai o bobl Aberfan, ynghyd â phobl a frysiodd yno i geisio helpu, yn ymateb i'r trasiedi a'u goddiweddodd. Clywsom hefyd rai o'r trigolion, yn cynnwys sawl plentyn a achubwyd o'r ysgol, yn sôn am y bore erchyll hwnnw a'i gysgod poenus a pharhaus drostynt er hynny.

Hyd yr oedd yn bosibl, bu pobl ym mhob cwr o'r wlad (a thu hwnt) yn cydymdeimlo â phobl Aberfan hanner can mlynedd yn ôl, a byth ers hynny wrth gael eu hatgoffa am y trychineb. Ail gyneuwyd y cydymdeimlad yr wythnos ddiwethaf wrth i ni nodi'r ffaith fod hanner canrif wedi mynd heibio. 'Hyd yr oedd yn bosibl', meddwn, gan ei bod yn amhosibl i neb nad oedd yn rhan o'r gymuned honno, a hyd yn oed i neb na cholodd blentyn neu gâr y bore hunllefus hwnnw, wir ymdeimlo â'r boen a'r galar y mae 'pobl Aberfan' wedi gorfod ei ddwyn dros yr hanner can mlynedd diwethaf.

Un peth a ddaeth yn amlwg o'r hanes a adroddwyd oedd bod eglwys lleol a'u gweinidogion wedi bod yn amlwg iawn nid yn unig o ran dwyn cysur i bobl Aberfan yn eu galar yn dilyn y trasiedi, ond hefyd yn yr ymdrech hir i sicrhau bod y gwir - o ran cyflwr y domen - wedi ei ddatgelu yn y diwedd. Diolch i Dduw am y nerth a roddodd i'r bobl hyn i wasanaethu yn enw'r Arglwydd Iesu Grist.

Un o gysuron mawr y Ffydd yw bod yr Arglwydd Iesu Grist yn deall pob poen ac yn gallu cydymdeimlo â'i bobl yn ei holl ofidiau. Fe ddiroddedodd ef ei hun anghyfiawnder mawr wrth iddo gael ei gyfrif yn droseddwr a'i osod ar groes rhwng dau leidr. Mae'n gwybod beth yw galar a phoen ac yn cydymdeimlo â ni ym mhob angen. Mae'n siwr bod rhai o bobl Aberfan yn gwybod hynny ers hanner can mlynedd.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm



'Ond llawenhaf fi yn yr
ARGLWYDD, a gorfoleddu yn
ei waredigaeth. Bydd fy holl
esgryn yn gweiddi, "Pwy, ARGLWYDD,
sydd fel tydi, yn gwaredu'r tlawd rhag un
cyrfach nag ef, y tlawd a'r angenus rhag
un sy'n ei ysbeilio?" (Salm 35:9-10).

Heddiw

Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch yr
Ysgol Sul yn yr Oedfa Deulu yn Capel
Coch am 10.30 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r
gloch gan y Parchg Cath Williams,
Caernarfon.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am
10.30 o'r gloch. Gwasanaethir mewn
Oedfa Fedydd am 3.15 o'r gloch gan y
Gweinidog. Estynnwn groeso cynnes i
bawb fydd yn yr oedfa hon.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am
10.00 o'r gloch, a gwasanaethir am 2.00
o'r gloch gan y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Nant Peris heddiw.

Cofion

Dymunwn yn dda i bawb sydd heb fod
yn dda eu hiechyd.

Cinio Cawl

Ar ôl y Gwasanaeth Diolchgarwch yn yr
Oedfa Deulu yn Capel Coch heddiw,
bydd Cinio Cawl i godi arian at Ward
Alaw, Ysbyty Gwynedd.

Ffrwythau

Diolch i bawb sydd wedi dod â ffrwythau
i'r Oedfa Ddiolchgarwch yn Capel Coch
heddiw. Cânt eu rhannu i rai o aelodau
hynaf y ddwy eglwys yn Llanberis yn
ystod yr wythnos.

Pwyllgor Carmel

Cynhelir Pwyllgor Ymddiriedolwyr
Capel Carmel am 7.00 o'r gloch nos
yfory, nos Lun, Hydref 24.

Cymdeithas

Cynhelir Cymdeithas Undebol Deiniolen
yn Nhy Elidir am 7.00 o'r gloch, nos
yfory, nos Lun, Hydref 24. Y gŵr gwadd
fydd Mr Huw P Hughes, Bethel. Croeso
cynnes i bawb.

Sul y Cofio

Cynhelir Gwasanaeth Sul y Cofio yn
Neiniolen am 9.15 o'r gloch, ddydd Sul,
Tachwedd 13.

Cyfarfod Gweddi Efe

Ni fydd Cyfarfod Gweddi Efe yn cael ei
gynnal yfory oherwydd gwylliau hanner
tymor yr ysgol.

Cwrs Ieuentid

Bydd rhai o ieuentid Llanberis yn mynd
i'r Cwrs Ieuentid yng Ngholeg y Bala
dros y Sul nesaf, o nos Wener hyd ddydd
Sul. Gobeithio gwnawn nhw fwynhau eu
hunain a chael amser da yng nghwmni
dros ddeugain o ieuentid sy'n bwriadu
mynd yno o wahanol rannau o'r wlad.

Agor y Llyfr

Cynhaliwyd Agor y Llyfr yn Ysgol
Gwaun Gynfi gan aelodau'r tim fore
Gwener. Y tro hwn, stori Moses yn fabi
oedd yn cael ei chyflwyno. Wedi i ni
ddweud y stori, cawsom ymuno â'r plant
mewn munud dawel i gofio am y plant
a'r bob a laddwyd yn Aberfan hanner can
mlynedd yn ôl.

Capel Coch

Cynhaliwyd Pwyllgor Adeiladau Capel
Coch nos Fercher diwethaf, Hydref 19, er
mwyn parhau'r drafodaeth o'r cyfarfod
blaenorol.

Rhoddyd sylw y tro hwn i'r gwaith y
gobeithir ei wneud y tu mewn i'r festri.

Wedi rhoi trefn ar y cyfan a drafodwyd
hyd yma, byddwn yn barod i gysylltu â
phensaer er mwyn cael cynlluniau a
phrisiau ac ati ar gyfer y gwaith.

Edrychwn ymlaen at weld yr hyn y buom
yn ei drafod yn dwyn ffrwyth.

Cyfarfod Chwarter

Bydd Cyfarfod Chwarter Annibynwyr
Gogledd Arfon yn cael ei gynnal yn
Eglwys Unedig Llandudno am 7.00 o'r
gloch, nos Fercher, Hydref 26. Yn ystod
y cyfarfod pregethir gan y Parchg Wibur
Lloyd Roberts. Mae croeso cynnes i
bawb i'r cyfarfod hwn.

beibl.net print bras

Bydd argraffiad print mwy (neu brint
bras) o beibl.net yn cael ei gyhoeddi cyn
diwedd y flwyddyn. Mae hwn yn addas
ar gyfer y pulpud neu i rai sy'n gweld y
print yn fân yn y llyfr a gyhoeddwyd y
llynedd. Tybed a yw eglwysy'r Ofalaeth
eisiau copi o'r fersiwn print bras at
ddefnydd y pulpud? Mae i'w gael am
£20 yn lle £25 os caiff ei archebu trwy'r
Cyngor Ysgolion Sul cyn diwedd y
flwyddyn.

Haiti

Wrth gyflwyno apêl am gymorth i'r bobl
a'r cymunedau sydd wedi dioddef yn
Haiti oherwydd Corwynt Mathew, mae
Tearfund yn ein hannog i gofio'r adnod
hon: 'Bydd gweddi a offrymir mewn
ffydd yn iachau y sawl sy'n glaf, a bydd
yr Arglwydd yn ei godi ar ei draed' (Iago
5:15).

CIC

Cynhaliwyd CIC yn Capel Coch echnos,
a diolch unwaith eto i Gwenno, Dafydd
ac Andrew am arwain y cyfarfod.

Bu'r criw yn trafod eto'r bwriad i godi
arian at gynllun Tearfund, 'Gefeillio
Toiled'.

Trwy'r cynllun hwn, mae cyfle i eglwysy
– ac unigolion hyd yn oed – dalu am
doiled glân i gymunedau sydd heb doiled
o'r fath ar hyn o bryd. Mae cannoedd os
nad miloedd o doiledau wedi eu darparu
trwy'r cynllun hwn.